# SL(5)699 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Mangre Ysgol a Mangre Sefydliad Addysg Bellach) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfyngu ar yr amgylchiadau y gall ddisgybl neu fyfyriwr fynychu mangre ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru rhwng 14 a 22 Rhagfyr 2020. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r Coronafeirws, ac maen nhw'n seiliedig ar gyngor a roddwyd gan Brif Swyddog Meddygol Cymru. Mae'r Rheoliadau yn gwahardd:

(i) perchnogion ysgolion rhag caniatáu i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 ac uwch fynychu'r ysgol; a

(ii) perchnogion sefydliadau addysg bellach rhag caniatáu i fyfyrwyr fynychu'r sefydliad.

Mae yna eithriadau ar gyfer (ymhlith eraill) plant gweithwyr hanfodol, disgyblion a myfyrwyr sy'n agored i niwed, a disgyblion ysgolion arbennig.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Y pwerau galluogi y dibynnir arnynt yn y testun Cymraeg yw-

> Adran 45C (1) a (3)**(c)**, 45F(2) a 45(P) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (ein pwyslais ni)

Y pwerau galluogi y dibynnir arnynt yn y testun Saesneg yw-

> Adran 45C(1) a (3), 45F(2) a 45(P) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefyd) 1984.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.*
>
> *Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae angen i unrhyw ymyrraeth yn yr hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso yn erbyn rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y Coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i leihau'r cynnydd yng nghyfradd drosglwyddo'r Coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.*"

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau hyn, a'u manylion, cymerais i, ynghyd â Gweinidogion eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru, ran mewn cyfres o drafodaethau brys gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol ac ysgolion. Darparodd y Gweinidog Addysg ddatganiad ysgrifenedig ar y mater hwn ar 10fed Rhagfyr 2020, wedi'i hategu gan ddatganiad i'r wasg.*"

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn cydnabod bod y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud mewn ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru roi manylion pellach ynghylch pwy yr ymgynghorodd â hwy a phryd, cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar hawliau plant ac rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i egluro pa gamau a gymerodd i asesu effaith benodol y Rheoliadau hyn ar blant.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru (ond nid i bwyntiau 2 a 3).

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.